# Cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn ardal tref Rhydaman

## Adroddiad Gwrthwynebu



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

## Cynnwys

**1. Crynodeb Gweithredol** .... 3
**2. Cefndir** .... 3
**3. Y Cyfnod Gwrthwynebu** .... 4
**4. Dadansoddi'r Ymatebion a Ddaeth i Law** .... 4
**5. Yr Adroddiad Gwrthwynebu** .... 5
**6. Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau a ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol** .... 6
**7. Crynodeb o'r Sylwadau Cefnogol a Ddaeth i Law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol** 20
**8. Opsiynau Eraill** .... 24
**9. Canfyddiadau allweddol** .... 26
**10. Casgliad** .... 26
**11. Argymhelliad** .... 26
**12. Y Camau Nesaf** .... 27

## 1. Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cyfnod ymgynghori a gwrthwynebu statudol yn ymwneud â'r cynnig i gau Ysgol Feithrin Rhydaman ac ymestyn ystod oedran Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman i 3-11 oed.

Roedd y gwrthwynebiadau yn canolbwyntio ar ansawdd y ddarpariaeth yn Ysgol Feithrin Rhydaman, yr effaith ar y gymuned, pryderon am ofal plant a thegwch, ac addasrwydd trefniadau eraill, ac roedd y sylwadau cefnogol yn tynnu sylw at gysondeb, cynaliadwyedd a datblygu sgiliau Cymraeg.

Mae tystiolaeth a ystyriwyd yn yr adroddiad yn dangos bod y cynnig yn cyd-fynd â newidiadau polisi o ran y blynyddoedd cynnar ledled y sir a bod gan y ddwy ysgol eraill y capasiti a'r safonau sydd eu hangen i ddarparu addysg feithrin ran-amser. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r dadansoddiad llawn i helpu'r Cabinet a'r Cyngor Sir i benderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig o 1 Medi 2026 ymlaen.

## 2. Cefndir

Cafodd y cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn ardal tref Rhydaman ei baratoi mewn ymateb i benderfyniad Cabinet y Cyngor i gael gwared ar Bolisi Plant sy'n Codi'n 4 oed Sir Gaerfyrddin, lle roedd plant yn gymwys yn hanesyddol i fynd i addysg gynradd amser llawn ar ddechrau'r tymor ysgol pan oeddent yn troi'n bedair oed.

Ar hyn o bryd, mae nifer fach o blant yn ardal Rhydaman yn derbyn addysg anstatudol y blynyddoedd cynnar yn Ysgol Feithrin Rhydaman, sef yr unig ysgol feithrin a gynhelir yn y sir. Mae plant yn cael eu derbyn i'r ysgol, sydd ag ystod oedran 3 i 5, yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn y gorffennol roeddent yn gallu mynychu'r ysgol yn amser llawn. Newidiodd hyn i ddarpariaeth ran-amser yn unig o fis Ionawr 2026. Mae'r holl ddarpariaeth feithrin arall mewn ysgolion a gynhelir ledled Sir Gaerfyrddin yn rhan-amser.

**<u>Y Broses Ymgynghori</u>**

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), cynhaliodd Cyngor Sir Caerfyrddin ymgynghoriad statudol ynghylch y cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn ardal tref Rhydaman rhwng 4 Medi 2025 a 16 Hydref 2025. Dyma gynigion y Cyngor Sir yn y ddogfen ymgynghori:

1. Cau Ysgol Feithrin Rhydaman

Yn ogystal ag

2. Ymestyn ystod oedran Ysgol Bro Banw o 4-11 i 3-11

3. Ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4-11 i 3-11

i ddarparu ar gyfer disgyblion o Ysgol Feithrin Rhydaman

Cafwyd cyfanswm o 121 o ymatebion i'r ymgynghoriad statudol hwn. Yn gyffredinol, y duedd oedd teimlo'n gryf yn erbyn cau Ysgol Feithrin Rhydaman, gyda nifer o ymatebwyr yn mynegi pryderon am y posibilrwydd o golli lleoliad blynyddoedd cynnar pwrpasol, yr effaith ar deuluoedd sy'n gweithio, a'r effaith ar gydlyniant cymunedol a chyfleoedd Cymraeg.

Serch hynny, roedd cyfran lai o'r ymatebion yn dangos cefnogaeth neu gefnogaeth rannol i'r cynigion, yn enwedig ymestyn ystodau oedran mewn ysgolion eraill. Ymhlith y themâu cadarnhaol roedd y potensial ar gyfer mwy o hyblygrwydd yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar, gwell parhad i blant sy'n symud i addysg gynradd, a'r cyfle i alinio darpariaeth leol â pholisïau sirol neu genedlaethol ehangach. Yn ogystal soniodd rhai ymatebwyr am arbedion effeithlonrwydd ariannol posibl a'r cyfle i foderneiddio neu symleiddio gwasanaethau.

Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law mewn adroddiad ymgynghori ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin ar 26 Ionawr 2026 a chafodd ei ystyried gan aelodau'r Cabinet. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), rhoddwyd gwybod i'r holl randdeiliaid bod yr adroddiad wedi cael ei gyhoeddi'n electronig.

Ar ôl ystyried yr Adroddiad Ymgynghori ar 26 Ionawr 2026, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor y cynigion a chytunodd i fynd ati i gyhoeddi Hysbysiad Statudol.

## 3. Y Cyfnod Gwrthwynebu

Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), rhoddodd y cyfnod gwrthwynebu gyfle i randdeiliaid gyflwyno gwrthwynebiadau i'r cynnig.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol ar y cynnig ar 10 Chwefror 2026 am gyfnod o 28 diwrnod tan 10 Mawrth 2026.

Cafodd y ddogfen ei hanfon yn electronig at yr holl randdeiliaid a'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin, a chafodd copïau caled eu cynnig ar gais a'u harddangos ar ffens a gatiau'r ysgol(ion). Roedd yn amlinellu manylion y cynnig ac yn esbonio sut y gellid cyflwyno gwrthwynebiadau.

## 4. Dadansoddi'r Ymatebion a Ddaeth i Law

Cafwyd cyfanswm o 29 o sylwadau mewn ymateb i'r Hysbysiad Statudol; 25 yn gwrthwynebu'r cynnig a 4 yn ei gefnogi.

Cyflwynwyd pob un o'r 29 o sylwadau cyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu, sy'n cynnwys 4 gwrthwynebiad a gyflwynwyd cyn i'r cyfnod gwrthwynebu ddechrau'n ffurfiol, sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad er cyflawnder.

Mae'r tabl isod yn nodi'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law.

| **Y Gwrthwynebiadau a Ddaeth i Law** | |
|---|---|
| Arolwg ar-lein | 13 |
| E-bost | 12 |

| | |
|---|---|
| Llythyr | 0 |
| **Cyfanswm** | **25** |

Mae'r tabl isod yn nodi'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law; daeth pob un i law cyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

| **Sylwadau Cefnogol a ddaeth i law** | |
|---|---|
| Arolwg ar-lein | 4 |
| E-bost | 0 |
| Llythyr | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** |

## 5. Yr Adroddiad Gwrthwynebu

Mae'r adroddiad gwrthwynebu hwn yn crynhoi'r sylwadau a ddaeth i law a oedd yn gwrthwynebu neu'n cefnogi'r cynnig ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r sylwadau hyn.

Dyma themâu'r gwrthwynebiadau neu'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law:

**Pryderon**

- **Thema 1 – Adroddiad Cadarnhaol gan Estyn ar gyfer Ysgol Feithrin Rhydaman**
- **Thema 2 – Effaith cau Ysgol Feithrin Rhydaman ar y gymuned**
- **Thema 3 – Pryderon am yr opsiynau eraill a gynigiwyd**
- **Thema 4 – Yr effaith ar staff a'r economi leol pe bai Ysgol Feithrin Rhydaman yn cau**
- **Thema 5 – Yr effaith ar ddatblygiad a llesiant plant pe bai Ysgol Feithrin Rhydaman yn cau**
- **Thema 6 – Pryderon ariannol a gofal plant i deuluoedd**
- **Thema 7 – Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Broses Ymgynghori**
- **Thema 8 – Pryderon am Amddifadedd a Thegwch**

**Sylwadau Cefnogol**

- **Thema 1 – Yr Angen am Gysondeb a Thegwch**
- **Thema 2 – Cynaliadwyedd y Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar**
- **Thema 3 – Cymorth i Ddarparwyr Blynyddoedd Cynnar**
- **Thema 4 – Cryfhau datblygu sgiliau Cymraeg**

## 6. Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau a ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol

Mae'r tabl isod yn nodi themâu'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r themâu hynny. Mae cyfanswm pob thema yn adlewyrchu faint o ymatebwyr penodol a gododd y mater hwnnw.

| **Pryderon a Godwyd** | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y Pwynt** | **Y Pwynt a Godwyd** | **Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn** | **% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn** |
| **1.** | **Adroddiad Cadarnhaol gan Estyn ar gyfer Ysgol Feithrin Rhydaman** | **12** | **41%** |
| **Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law**<br>Tynnodd sawl ymatebydd sylw at yr adroddiad arolygu cadarnhaol gan Estyn ar gyfer Ysgol Feithrin Rhydaman fel rheswm canolog dros wrthwynebu'r cynnig i gau'r ysgol. Pwysleisiwyd bod y canfyddiadau'n dangos addysgu, gofal, arweinyddiaeth a darpariaeth gyffredinol o safon uchel, sydd, yn eu barn nhw, yn adlewyrchu lleoliad cryf, sefydledig sy'n haeddu cefnogaeth barhaus. Dadleuodd yr ymatebwyr na ellir cyfiawnhau cau ysgol feithrin â chryfderau mor glir, sydd wedi'u cadarnhau'n annibynnol, ac y byddai'n wrthgynhyrchiol, gan nodi bod cydnabyddiaeth allanol a safonau cryf yn atgyfnerthu gwerth ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth bresennol ymhellach. | | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br>Rydym yn cydnabod bod Ysgol Feithrin Rhydaman wedi cael adroddiad arolygu cadarnhaol diweddar gan Estyn, sy'n adlewyrchu gwaith caled, ymroddiad a gofal y staff a'r arweinyddiaeth dros dro. Nid yw'r cynnig yr ymgynghorir yn ei gylch yn adlewyrchiad o | | | |

ansawdd addysg yr ysgol feithrin. Mae'r cynnig i gau Ysgol Feithrin Rhydaman yn cael ei ysgogi gan newidiadau polisi strategol ar draws y sir, nid gan bryderon am safonau.

Ym mis Mawrth 2024, cytunodd Cabinet Sir Gaerfyrddin i ddileu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed, sy'n golygu na fydd plant bellach yn dechrau ysgol amser llawn yn y tymor y maent yn troi'n bedair oed. Byddant yn aros mewn darpariaeth feithrin am gyfnod hirach, ac roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Cyngor werthuso pob un o'r ysgolion 4-11 a'r trefniadau meithrin ar draws y sir. Roedd model blaenorol Ysgol Feithrin Rhydaman o addysg feithrin amser llawn i blant tair oed yn anghyson â'r holl leoliadau eraill a gynhelir yn Sir Gaerfyrddin.

Byddai ymestyn ystod oedran Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman i ddarpariaeth 3–11 yn sicrhau bod ardal Rhydaman yn cyd-fynd â'r strategaeth sirol ehangach. Mae'r model hwn yn cynnig sawl mantais, gan gynnwys:

- Mynediad cyson at addysg ran-amser y blynyddoedd cynnar ledled Sir Gaerfyrddin
- Gwell parhad rhwng cyfnodau meithrin a chynradd
- Trefniadau diogelu, gofal bugeiliol a throsglwyddo cryfach
- Cynaliadwyedd tymor hir yn unol â pholisi cenedlaethol.

Mae'r cynnig i gau Ysgol Feithrin Rhydaman felly yn newid strwythurol i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ac nid yn adlewyrchiad o berfformiad yr ysgol.

Mae Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman hefyd wedi cael arolygiadau cadarnhaol gan Estyn yn ddiweddar, a barn y Cyngor yw bod y ddwy ysgol eisoes yn darparu addysg o ansawdd cyfatebol o leiaf i'r hyn a gynigir yn Ysgol Feithrin Rhydaman. Felly, mae'r Awdurdod Lleol yn sicr y byddai plant sy'n trosglwyddo i'r lleoliadau hyn yn parhau i dderbyn addysg y blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel.

Byddai'r cynnig hwn yn sicrhau:

- Bod plant yn aros gyda'u cyfoedion mewn ardal gyfarwydd
- Bod darpariaeth blynyddoedd cynnar yn cael ei chynnig ar safleoedd ysgol â systemau diogelu a bugeiliol cryf
- Bod disgyblion yn elwa ar brofiadau ehangach sydd ar gael mewn ysgolion 3–11

Mae'r cynnig hwn yn tynnu sylw at sawl her sy'n gysylltiedig â chynnal ysgol feithrin annibynnol, gan gynnwys:

- Adnoddau a hyblygrwydd cyfyngedig o ran staffio
- Pwysau ariannol ychwanegol

- Llai o barhad rhwng cyfnodau meithrin a chynradd
- Cyfleoedd cyfyngedig o ran datblygiad proffesiynol o gymharu ag ysgolion mwy

Am y rhesymau hyn, er bod cryfderau Ysgol Feithrin Rhydaman yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi'n llawn, mae'r cynnig yn adlewyrchu'r angen i ddarparu system blynyddoedd cynnar gydlynol, deg a chynaliadwy ar draws y sir, yn unol â disgwyliadau cenedlaethol a chynllunio strategol tymor hir.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2.** | **Effaith cau Ysgol Feithrin Rhydaman ar y gymuned** | **12** | **41%** |

**Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law**

Mynegwyd pryder am yr effaith negyddol y byddai cau Ysgol Feithrin Rhydaman yn ei chael ar y gymuned leol. Pwysleisiodd llawer fod yr ysgol feithrin yn ganolfan gymunedol bwysig ac yn ased cymunedol hirsefydlog, sy'n cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol ac yn darparu amgylchedd dibynadwy a sefydlog i deuluoedd ledled yr ardal. Dywedodd sawl gwrthwynebiad y byddai colli'r ysgol feithrin yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gymuned, gan gynnwys llai o fynediad at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ddibynadwy, llai o rwydweithiau cymorth lleol i rieni, a chanlyniadau cymdeithasol ac economaidd ehangach i'r dref. Pwysleisiodd sawl ymatebydd fod yr ysgol feithrin yn cryfhau'r economi leol ac yn cefnogi sefydlogrwydd y gweithlu, gan ddadlau y byddai ei chau yn tanseilio llesiant cymunedol ac yn cael gwared â sefydliad gwerthfawr sydd â chysylltiadau hanesyddol dwfn â Rhydaman.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae Ysgol Feithrin Rhydaman yn ei chwarae yn y gymuned leol, ac rydym yn gwerthfawrogi'n llawn pam mae llawer o bobl yn teimlo'n gryf am yr effaith bosibl y gall cau'r ysgol feithrin ei chael ar deuluoedd a'r ardal ehangach. Mae'r ffaith bod yr ysgol feithrin wedi'i hen sefydlu, ynghyd â'r perthnasoedd y mae wedi'u meithrin dros amser, yn golygu y gall unrhyw newid arfaethedig arwain at bryder wrth reswm. Rydym yn deall y teimladau hyn ac wedi ystyried yn ofalus yr holl farn a fynegwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, mae Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman eisoes yn cynnig clybiau brecwast a darpariaeth ar ôl ysgol, sy'n golygu y bydd y gwasanaethau cofleidiol y mae teuluoedd yn eu defnyddio ar hyn o bryd yn parhau i

| | | | |
|---|---|---|---|
| fod ar gael yn yr un ardal. Mae hyn yn sicrhau parhad i deuluoedd ac yn helpu i gynnal y lefel o gefnogaeth gymunedol y maent yn dibynnu arni ar hyn o bryd.<br><br>Nododd yr asesiad o'r effaith ar y gymuned a gynhaliwyd fel rhan o'r broses statudol y canlynol:<br>• Ni fyddai dim newid i ddiogelwch cymunedol<br>• Ni fyddai dim newid i gludiant<br>• Ni fyddai dim newid i bellteroedd cerdded<br>• Ni fyddai gwasanaethau cymunedol ehangach yn cael eu colli, gan nad yw'r rhain yn gweithredu o'r ysgol feithrin<br><br>Bydd adeilad Ysgol Feithrin Rhydaman yn parhau i gael ei ddefnyddio. O dan y cynnig, bydd yn cael ei ddefnyddio gan Ysgol Gymraeg Rhydaman i ddarparu ar gyfer disgyblion oedran meithrin. Mae hyn yn sicrhau:<br>• Dim adeilad gwag neu adeilad sydd heb ei ddefnyddio digon yn y gymuned<br>• Presenoldeb staff ar y safle o hyd<br><br>Drwy gadw'r adeilad fel cyfleuster addysg a sicrhau bod darpariaeth blynyddoedd cynnar yn parhau o fewn yr un ôl troed daearyddol, mae'r cynnig yn cynnal mynediad y gymuned at wasanaethau lleol ac yn cadw gweithwyr addysg proffesiynol a theuluoedd yn yr ardal. | | | |
| | | | |
| **3.** | **Pryderon am yr opsiynau eraill a gynigiwyd** | **11** | **38%** |
| **Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law**<br>Mynegwyd pryderon am yr opsiynau eraill a gynigiwyd, gan gwestiynu a allai lleoliadau fel Ysgol Bro Banw neu Ysgol Gymraeg Rhydaman gynnig yr un ansawdd, sefydlogrwydd a natur arbenigol o ran y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ag a gynigir ar hyn o bryd yn Ysgol Feithrin Rhydaman. Roedd llawer o'r farn nad oedd digon o dystiolaeth i ddangos bod yr opsiynau yn hyfyw neu â digon o adnoddau, gan arwain at amheuon ynghylch a fyddent yn gallu diwallu anghenion datblygiadol, llesiant a dysgu ychwanegol plant. Hefyd nododd ymatebwyr ofnau am ansefydlogrwydd yn y dyfodol, llai o fynediad at ofal plant dibynadwy, ac | | | |

effeithiau negyddol posibl ar deuluoedd, yn enwedig teuluoedd gwledig, rhai sy'n gweithio a rhai sy'n ffermio, pe bai angen iddynt ddibynnu ar ddarpariaeth ran-amser, lai addas, neu anghyfarwydd.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Gwerthusodd yr Awdurdod Lleol amrywiaeth o opsiynau eraill yn ofalus cyn cyflwyno'r cynnig presennol. Roedd yr asesiad hwn yn ystyried safonau addysgol, aliniad strategol, cynaliadwyedd ariannol, trefniadau staffio, defnydd adeiladau, a hyfywedd gweithredol tymor hir ar draws ardal Rhydaman.

Yn dilyn y dadansoddiad hwn, daeth yr Awdurdod i'r casgliad mai'r opsiwn a ffefrir yw'r unig un sy'n bodloni'n llawn y gofynion addysgol, strategol a pholisi ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar ledled Sir Gaerfyrddin.

Mae'r model a ffefrir yn sicrhau:

- Tegwch a chysondeb ar draws holl ysgolion 3–11 Sir Gaerfyrddin, gan fynd i'r afael â'r anghysondeb parhaus sy'n deillio o'r ffaith mai Ysgol Feithrin Rhydaman yw'r unig ysgol feithrin annibynnol yn y sir.
- Parhad a phroses bontio gryfach, gan alluogi plant i symud yn hwylus o'r cyfnod meithrin i'r cyfnod cynradd o fewn un gymuned ysgol.
- Cyd-fynd â'r strwythur blynyddoedd cynnar diwygiedig yn sgil dileu'r polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu disgwyliadau cenedlaethol cyfredol.
- Defnydd mwy effeithlon o staffio ac adnoddau, gan leihau dyblygu diangen ar draws sawl safle a chefnogi cynaliadwyedd tymor hir ar gyfer Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman.

Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, byddai darpariaeth blynyddoedd cynnar yn cael ei chynnig gan ymarferwyr blynyddoedd cynnar cymwysedig, fel sy'n digwydd ym mhob un o ysgolion 3–11 Sir Gaerfyrddin. Bydd y timau staff mwy yn y ddwy ysgol yn darparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio proffesiynol gwell, cymorth gan gymheiriaid, a rhannu arbenigedd. Gall hyn gryfhau'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm a sicrhau parhad wrth i blant symud o'r cyfnod feithrin i'r cyfnod cynradd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman wedi cael eu harolygu'n ddiweddar gan Estyn a barnwyd nad ydynt mewn categori gweithgarwch dilynol, sy'n dangos eu bod yn bodloni'r safonau gofynnol ac nad oes angen gwaith monitro ychwanegol arnynt. Mae canfyddiadau eu harolygiad yn tynnu sylw at ofal bugeiliol cryf, perthnasoedd cadarnhaol, ac amgylchedd ysgol cefnogol, sydd i gyd yn sylfeini hanfodol ar gyfer datblygiad cynnar a llesiant plant.<br><br>Mae'r cynnig yn sicrhau y bydd plant oedran meithrin yn parhau i dderbyn addysg ran-amser y blynyddoedd cynnar mewn amgylchedd cyfarwydd. Byddai Ysgol Gymraeg Rhydaman yn defnyddio adeilad presennol Ysgol Feithrin Rhydaman, ac mae safle babanod Ysgol Bro Banw eisoes yn gweithredu yn yr un ardal. Mae hyn yn golygu y bydd plant yn aros yn yr un gymuned, heb fawr ddim newidiadau i drefniadau teithio neu'r amgylchedd.<br><br>Mae gan y ddwy ysgol systemau cadarn ar waith i nodi anghenion ychwanegol yn gynnar, monitro cynnydd, a darparu rhaglenni cymorth pwrpasol. Mae adroddiadau Estyn ar gyfer y ddau leoliad yn tynnu sylw at ofal bugeiliol cryf, ymddygiad cadarnhaol, a pherthnasoedd cynnes a chefnogol, ac mae'r rhain i gyd o fudd uniongyrchol i lesiant plant ifanc. Mae presenoldeb uned cynhwysiant ADY yn Ysgol Bro Banw yn cryfhau cymorth arbenigol lleol ymhellach.<br><br>Yr opsiwn a ffefrir felly yw'r unig un sy'n bodloni gofynion addysgol, strategol, ariannol a gweithredol yn llawn wrth gynnal y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel i blant yn ardal Rhydaman.<br><br>Ar ôl ystyried yr holl opsiynau eraill sydd ar gael, mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon mai'r opsiwn a ffefrir yw'r unig un sy'n darparu model blynyddoedd cynnar cydlynol, gwydn a chynaliadwy wrth gynnal darpariaeth o ansawdd uchel i blant yn ardal Rhydaman. | | | |
| | | | |
| **4.** | **Yr effaith ar staff a'r economi leol pe bai Ysgol Feithrin Rhydaman yn cau** | **9** | **31%** |
| **Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law**<br>Nodwyd y gallai cau Ysgol Feithrin Rhydaman arwain at ganlyniadau negyddol sylweddol i staff a'r economi leol ehangach, gan gynnwys colli ymarferwyr blynyddoedd cynnar medrus, dileu swyddi o bosib, ac ansefydlogi gweithlu arbenigol uchel ei berfformiad. Roeddent hefyd yn ofni y byddai llai o gyfleoedd cyflogaeth lleol ac effeithiau cynyddol ar allu teuluoedd i weithio, ochr yn ochr â phwysau economaidd ehangach sy'n gysylltiedig â cholli darpariaeth gofal plant sefydledig. Er nad hon oedd y thema a nodwyd | | | |

amlaf, roedd y rhai a'i mynegodd yn credu y gallai cau'r ysgol feithrin olygu goblygiadau pellgyrhaeddol i lesiant staff, sefydlogrwydd y gweithlu, a gwytnwch economaidd cymuned Rhydaman.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gall newidiadau i'r ddarpariaeth addysgol olygu goblygiadau i staff a'r economi leol ehangach.

Nid yw penderfyniadau o'r natur hon yn cael eu gwneud ar chwarae bach, ac rydym yn cydnabod yn llawn y pryderon a fynegwyd ynghylch diogelwch swyddi, sefydlogrwydd y gweithlu, ac effeithiau economaidd posibl ar ardal Rhydaman.

Ein blaenoriaeth bob amser yw lleihau tarfu a chefnogi ein staff drwy unrhyw gyfnod o newid. Yn unol â'n Polisi Dileu Swyddi / Staff Gormodol Enghreifftiol ar gyfer Ysgolion, rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i osgoi dileu swyddi yn orfodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr holl gyfleoedd adleoli posibl o fewn y rhwydwaith ysgolion ehangach a'r awdurdod lleol, cynnig dileu swyddi yn wirfoddol neu ymddeoliad cynnar lle bo hynny'n briodol, a gweithio'n agos gydag undebau llafur drwy gydol y broses.

Fodd bynnag, er y byddwn yn gwneud pob ymdrech i adleoli staff yr effeithir arnynt, ni allwn ddiystyru'n llwyr y posibilrwydd o ddileu swyddi. Pan nad yw adleoli ym ymarferol, byddwn yn dilyn proses deg a thryloyw ac yn cefnogi'r rheiny yr effeithir arnynt.

Mae'r Awdurdod Lleol yn deall bod hyn yn creu ansicrwydd i staff a'u teuluoedd, ac rydym wedi ymrwymo i gyfathrebu'n glir, a darparu diweddariadau amserol a mynediad at wasanaethau cymorth drwy gydol y broses. Bydd ein tîm Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos gyda Phenaethiaid a Chyrff Llywodraethu i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol y broses.

Byddai unrhyw newidiadau yn yr ysgol arall yn cael eu rheoli drwy'r corff llywodraethu, yn unol â rheoliadau staffio ysgolion a pholisïau Adnoddau Dynol, a byddent hefyd yn destun ymgynghoriad priodol â staff yr effeithir arnynt ac undebau.

Mewn perthynas â phryderon am yr economi leol, nid yw'r cynnig hwn yn golygu na fydd adeilad Ysgol Feithrin Rhydaman ar gael i'r gymuned ei ddefnyddio. Yn hytrach, os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yr adeilad yn parhau i gael ei ddefnyddio gan Ysgol Gymraeg Rhydaman i ddarparu ar gyfer disgyblion meithrin ychwanegol, sy'n golygu:

- Dim adeilad gwag yn effeithio ar ymwelwyr lleol neu hyder cymunedol
- Presenoldeb staff ar y safle o hyd
- Parhad o ran cynnal a chadw, defnydd cyfleustodau a gweithgarwch economaidd lleol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| O ganlyniad, mae'r cynnig yn cynnal cyfraniad yr adeilad i'r economi leol ac yn osgoi'r effeithiau negyddol sy'n aml yn gysylltiedig ag asedau cyhoeddus nad ydynt yn cael eu defnyddio.<br><br>Mae'r cynnig yn cydnabod y gall newid o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar amser llawn i ddarpariaeth ran-amser (fel sy'n ofynnol gan bolisi cenedlaethol) greu cyfleoedd newydd i ddarparwyr gofal plant preifat, sy'n gallu cynnig gofal cofleidiol.<br><br>Gallai hyn wneud y canlynol:<br>• Cryfhau busnesau gofal plant lleol<br>• Cefnogi cyflogaeth yn y sector blynyddoedd cynnar<br>• Cynyddu cynaliadwyedd economaidd i ddarparwyr sy'n cynnig gwasanaethau cofleidiol<br><br>Mae'r model blynyddoedd cynnar ehangach hwn yn cefnogi economi gofal plant leol fwy cytbwys a gwydn.<br><br>Nododd yr asesiad o'r effaith ar y gymuned nad oedd adeilad Ysgol Feithrin Rhydaman yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau cymunedol ehangach y tu hwnt i ddarpariaeth gofal plant felly:<br>• Ni fydd unrhyw sefydliadau cymunedol yn colli canolfan<br>• Nid oes unrhyw swyddi yn y sector cymunedol mewn perygl<br>• Ni fydd effaith ar unrhyw weithgaredd economaidd sy'n gysylltiedig â defnydd cymunedol<br><br>I grynhoi, er bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon ynghylch staffio a'r economi leol, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y cynnig yn cynnal presenoldeb addysgol gweithredol ar y safle, yn cefnogi cynaliadwyedd darpariaeth blynyddoedd cynnar leol, ac yn cynnig ymagwedd reoledig a chyfrifol at newid staff. Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau aflonyddwch, cefnogi gweithwyr, a diogelu gwytnwch tymor hir gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn ardal Rhydaman. | | | |
| | | | |
| 5. | **Yr effaith ar ddatblygiad a llesiant plant pe bai Ysgol Feithrin Rhydaman yn cau** | **7** | **24%** |

| **Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law** |
|---|
| Roedd pryderon y byddai cau Ysgol Feithrin Rhydaman yn cael effaith negyddol ar blant drwy amharu ar eu datblygiad emosiynol a chymdeithasol, cael gwared â mynediad at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar arbenigol o ansawdd uchel, a lleihau sefydlogrwydd a pharhad y gofal y maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd. Roeddent hefyd yn teimlo y byddai'r newid yn cyfyngu ar nodi anghenion datblygiadol neu anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac y gallai danseilio llesiant plant drwy eu gorfodi i drosglwyddo i leoliadau anghyfarwydd neu ran-amser cyn eu bod yn barod. |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br>Sicrhau bod datblygiad, llesiant a diogelwch emosiynol plant yn cael eu diogelu yw un o'r ystyriaethau pwysicaf yn y cynnig hwn. Roedd y ddogfen ymgynghori yn darparu tystiolaeth fanwl nad oes disgwyl i'r cynigion gael effaith negyddol ar ddysgu, llesiant neu ddatblygiad plant, ac y gallant mewn gwirionedd gynnig manteision datblygiadol ychwanegol.<br><br>Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd disgyblion yn aros gyda'r un grwpiau cyfoedion ac mewn ardal y maent eisoes yn ei hadnabod yn dda. Mae hyn yn cefnogi diogelwch emosiynol a pharhad. Oherwydd bod yr ysgolion eraill o fewn hanner milltir i'r ysgol feithrin bresennol, bydd arferion dyddiol disgyblion ac ymdeimlad o le yn parhau i fod yn sefydlog.<br><br>Roedd adroddiadau Estyn ar gyfer Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman a arolygwyd yn ddiweddar yn tynnu sylw at:<br>• Perthnasoedd cryf a chadarnhaol rhwng staff a disgyblion<br>• Amgylchedd ysgol diogel, meithringar a chynhwysol<br>• Disgyblion sy'n teimlo'n ddiogel, yn cael eu cefnogi'n dda, ac sydd ag agweddau cadarnhaol at ddysgu<br><br>Mae'r rhain yn sylfeini hanfodol ar gyfer llesiant a datblygiad cynnar, ac mae asesiad y cyngor yn dod i'r casgliad na fydd symud plant i amgylcheddau o'r fath yn cael effaith negyddol ar eu llesiant.<br><br>Mae nifer o fanteision datblygiadol yn gysylltiedig â darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar safle ysgol 3–11, sef:<br>• Gwell parhad rhwng y cyfnod meithrin a'r cyfnod cynradd<br>• Diogelwch emosiynol cryfach, gan fod y plant yn aros yn yr un gymuned ysgol<br>• Nodi anghenion dysgu a llesiant yn gynharach<br>• Rhieni'n ymgysylltu'n gynharach â'r ysgol.<br><br>Mae'r model integredig hwn yn cefnogi datblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol plant drwy sicrhau bod yr un timau staff, systemau bugeiliol a fframweithiau cymorth yn parhau i fod ar waith drwy gydol eu blynyddoedd cynnar a'u haddysg gynradd. |

Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon y bydd llesiant, datblygiad a diogelwch emosiynol plant yn cael eu diogelu, ac y bydd newid i ysgolion 3–11 yn darparu amgylchedd sefydlog, meithringar a chefnogol yn ddatblygiadol i bob plentyn yn ardal Rhydaman.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6.** | **Pryderon ariannol a gofal plant i deuluoedd** | **5** | **17%** |

**Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law**

Mynegwyd pryderon am y pwysau ariannol a'r anawsterau gofal plant y byddai teuluoedd yn eu hwynebu pe bai Ysgol Feithrin Rhydaman yn cau. Tynnodd sawl un sylw at y ffaith bod y ddarpariaeth amser llawn, ddibynadwy ac o ansawdd uchel yn yr ysgol feithrin yn hanfodol i rieni sy'n gweithio, yn enwedig y rhai mewn cyflogaeth wledig neu sy'n gweithio shifftiau, ac y byddai opsiynau rhan-amser neu lai hyblyg eraill yn creu bylchau sylweddol o ran gofal plant. Gallai'r bylchau hyn gynyddu costau i deuluoedd a fyddai'n gorfod ceisio gofal plant ychwanegol â thâl, yn ogystal â rhoi pwysau ychwanegol ar allu rhieni i gynnal ymrwymiadau gwaith neu hyfforddiant. Mynegwyd pryderon hefyd y gallai cau'r ysgol feithrin gael effaith anghymesur ar deuluoedd sy'n wynebu amddifadedd neu annhegwch, gan wneud gofal plant yn llai fforddiadwy ac o bosibl lleihau mynediad at addysg y blynyddoedd cynnar i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod yn llawn y gall newidiadau i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar effeithio ar arferion teuluoedd, trefniadau gofal plant ac amgylchiadau ariannol. Mae'r pryderon hyn wedi'u hystyried yn ofalus fel rhan o'r broses statudol. Mae'r dystiolaeth yn dangos na fydd y cynnig yn lleihau'r hawliau addysg blynyddoedd cynnar neu ofal plant a ariennir sydd ar gael i deuluoedd, nac yn cynyddu'r costau i rieni o ganlyniad i'r newid.

O dan drefniadau blynyddoedd cynnar cenedlaethol, mae gan bob plentyn tair oed hawl i o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir mewn lleoliad cofrestredig. Mae rhieni sy'n gweithio yn gallu parhau i gael mynediad at hyd at 30 awr o addysg a gofal plant a ariennir drwy Gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ar gyfer plant 3-4 oed cymwys. Mae hyn ar gael waeth a yw'r plentyn yn mynychu Ysgol Feithrin Rhydaman, dosbarth meithrin ysgol 3–11, neu ddarparwr gofal plant. Mae hyn yn golygu nad yw rhieni ar eu colled yn ariannol yn sgil y newid arfaethedig.

Pryder allweddol a fynegwyd yw a fydd rhieni yn colli mynediad at wasanaethau gofal plant hanfodol sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Feithrin Rhydaman. Mae'r canlynol wedi'i gadarnhau:

Mae Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman eisoes yn cynnig clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol sy'n debyg i'r hyn a ddarperir yn Ysgol Feithrin Rhydaman.

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd adeilad presennol yr ysgol feithrin yn parhau i fod ar agor fel cyfleuster i gynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar gan y bydd yn cael ei ddefnyddio gan Ysgol Gymraeg Rhydaman i ddarparu ar gyfer disgyblion meithrin. Mae hynny'n golygu’r canlynol:

- Ni fydd darpariaeth leol yn cael ei cholli
- Ni fydd angen i deuluoedd deithio ymhellach
- Ni fydd tarfu ar adeiladau, llwybrau neu arferion cyfarwydd

Mae hefyd yn bwysig nodi, o fis Ionawr 2026, bod Ysgol Feithrin Rhydaman ei hun wedi newid o addysg amser llawn y blynyddoedd cynnar i addysg ran-amser, yn unol â pholisi cenedlaethol. O ganlyniad, nid yw'r cynnig yn lleihau nifer yr oriau o'r newydd; mae'n sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol yn cyd-fynd â'r model sirol a fabwysiadwyd ledled Sir Gaerfyrddin.

Gall y newid i addysg ran-amser greu cyfleoedd newydd i'r sector gofal plant nas cynhelir, gan gynnwys darparwyr preifat a gwirfoddol sy'n cynnig gofal cofleidiol. Mae hyn yn cefnogi marchnad gofal plant leol fwy cytbwys a chynaliadwy a gallai olygu bod mwy o opsiynau hyblyg ar gael i deuluoedd.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon bod y cynnig yn cynnal mynediad teuluoedd at addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant a ariennir, yn sicrhau parhad y ddarpariaeth gofleidiol yn yr ardal leol, ac nad yw'n rhoi baich ariannol ychwanegol ar rieni.

| 7. | **Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Broses Ymgynghori** | **4** | **14%** |
|---|---|---|---|

**Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law**
Nododd llawer na chafodd yr ymgynghoriad gyhoeddusrwydd priodol, gan olygu nad oedd teuluoedd ac aelodau'r gymuned yn ymwybodol o'r broses neu'n gwybod sut i gymryd rhan. Mynegwyd pryderon nad oedd cynnwys yr ymgynghoriad neu adborth gan y gymuned wedi'u dangos yn briodol yn y cynnig terfynol a chyfeiriodd rhai gwrthwynebwyr yn ehangach at faterion yn ymwneud â'r dull ymgynghori, gan gynnwys pryderon am gyfathrebu, tegwch ac uniondeb y broses.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**
Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion (2018) Llywodraeth Cymru ac roedd yn cynnwys amserlen fanwl, rhestr o'r rhanddeiliaid, a sawl ffordd i ymgyngoreion ymateb ym mhob cam o'r broses. Roedd y ddogfen ymgynghori yn nodi'n glir fod y cyfnod ymgynghori rhwng 4 Medi a 16 Hydref 2025, a byddai'r holl ymatebion yn cael eu crynhoi mewn adroddiad ymgynghori. Roedd hefyd yn esbonio'r camau gwrthwynebu a phenderfynu dilynol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.
Roedd yr holl gynigion a'r dystiolaeth ategol ar gael i randdeiliaid, a chafodd yr holl adborth a ddaeth i law ei ystyried yn gydwybodol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

Mae'r ALl wedi ymrwymo i ymgynghori'n glir, yn dryloyw, ac yn ystyrlon, fel sy'n ofynnol gan y Cod.

Mae pryderon am drylwyredd gwneud penderfyniadau yn ddealladwy. Dangosodd y ddogfen ymgynghori fod y cyngor eisoes wedi cynnal y canlynol:

- Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned
- Asesiad Effaith Integredig
- asesiad o'r effaith ar y Gymraeg
- dadansoddiad o nifer y lleoedd, safonau, amseroedd teithio a goblygiadau ariannol.

Rhesymeg dros gau - rhaid nodi nad yw'r cynnig yn cael ei ysgogi gan ffactorau ariannol ond mae'n deillio o benderfyniad y Cyngor i waredu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed ym mis Mawrth 2024. Mae'r newid hwn yn golygu y bydd plant yn dechrau'r ysgol yn amser llawn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed, felly mae angen adolygu'r ddarpariaeth feithrin er mwyn sicrhau cysondeb ar

| | | | |
|---|---|---|---|
| draws Sir Gaerfyrddin. Ysgol Feithrin Rhydaman yw'r unig ysgol feithrin annibynnol yn y sir ar hyn o bryd, ac mae ei model amser llawn yn wahanol i bob darpariaeth feithrin arall mewn ysgolion yn Sir Gaerfyrddin. Nod y newidiadau arfaethedig yw cysoni'r ddarpariaeth, gwella parhad addysg, a chyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol megis Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Chwricwlwm i Gymru.<br><br>Yn gryno, mae'r broses ymgynghori wedi'i chynllunio i fod yn agored ac yn gynhwysol, ac mae'r rhesymeg dros gau yn seiliedig ar newidiadau polisi a blaenoriaethau addysgol yn hytrach nag ystyriaethau ariannol yn unig. | | | |
| | | | |
| **8.** | **Pryderon am Amddifadedd a Thegwch** | **4** | **14%** |
| **Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law**<br>Mynegwyd pryderon y byddai cau Ysgol Feithrin Rhydaman yn cael effaith anghymesur ar blant a theuluoedd sydd eisoes yn wynebu amddifadedd, gan leihau mynediad teg at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel. Tynnodd un ymatebydd sylw at bryderon am amddifadedd a thegwch, gan nodi bod yr ysgol feithrin ar hyn o bryd yn darparu gwasanaeth hanfodol a sefydlog i deuluoedd sy'n agored i niwed a theuluoedd incwm isel a allai gael trafferth cael mynediad at ofal plant arall neu ei fforddio. Adleisiodd eraill fod y ddarpariaeth amser llawn arbenigol yn cefnogi plant sy'n fwy tebygol o wynebu rhwystrau economaidd-gymdeithasol, ac y gall yr opsiynau eraill arfaethedig waethygu anghydraddoldebau drwy gynnig llai o oriau, llai o hygyrchedd, neu lai o gymorth i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Yn gyffredinol, dadleuodd gwrthwynebwyr y gallai cau'r ysgol feithrin ehangu anghydraddoldebau presennol a thanseilio mynediad teg at addysg gynnar yn y gymuned. | | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn rhoi plant neu deuluoedd sydd eisoes yn wynebu heriau economaidd-gymdeithasol dan anfantais. Mae'r ystyriaethau hyn wedi bod yn ganolog drwy gydol y broses asesu statudol. | | | |

Cadarnhaodd y ddogfen ymgynghori nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar grwpiau agored i niwed o ddysgwyr, gan gynnwys plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd. Mae hyn oherwydd y bydd disgyblion yn elwa ar y staffio, yr adnoddau a'r systemau cymorth ehangach sydd ar gael mewn amgylchedd ysgol gynradd 3–11 fwy. Mae'r lleoliadau hyn yn darparu cyfleoedd gwell ar gyfer nodi anghenion dysgu neu lesiant yn gynnar, sy'n arbennig o fuddiol i ddysgwyr dan anfantais.

Mae gan Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman systemau cryf presennol ar gyfer monitro cynnydd disgyblion, nodi anghenion ychwanegol yn gynnar, a rhoi ymyriadau amserol ar waith. Mae staff yn y ddwy ysgol yn gweithio'n agos gyda theuluoedd ac yn darparu gofal bugeiliol effeithiol, gan sicrhau bod plant o bob cefndir yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Bydd y trefniadau hyn yn parhau i ddiogelu mynediad teg at addysg a chymorth llesiant.

Mae hyn yn golygu y bydd plant o bob cefndir, gan gynnwys y rhai a allai fod yn fwy agored i niwed, yn parhau i dderbyn gofal a chymorth addysgol priodol.

Nid yw'r cynnig yn lleihau mynediad at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar. Yn hytrach, mae'n sicrhau bod addysg feithrin ran-amser ar gael:

- Mewn categorïau iaith Cymraeg a Saesneg
- Mewn ysgolion sydd â digon o gapasiti a safonau cryf
- O fewn cymuned bresennol y plentyn, ac
- Yn cyd-fynd â strategaeth blynyddoedd cynnar ehangach Sir Gaerfyrddin

Bydd Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn cynnig lleoedd blynyddoedd cynnar rhan-amser sy'n gyson â gofynion cenedlaethol, gan gynnal mynediad teg i deuluoedd yn ardal Rhydaman.

Drwy gael mynediad at ddarpariaeth feithrin ar safle ysgol gynradd 3-11, darperir y canlynol i blant:

- nodi anghenion dysgu a llesiant yn gynharach
- proses bontio gryfach i addysg amser llawn
- amgylchedd ysgol cyson a meithringar

Mae'r integreiddio cynnar hwn o fudd i bob disgybl ond mae'n fanteisiol i blant o gefndiroedd dan anfantais, sy'n aml yn elwa fwyaf ar brofiadau addysgol cynnar o ansawdd uchel.

| |
|---|
| I grynhoi, mae asesiad yr Awdurdod Lleol yn dod i'r casgliad bod y cynnig yn cefnogi tegwch yn hytrach na'i danseilio. Mae'r model yn darparu mynediad parhaus at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel, yn cryfhau cymorth datblygiadol a bugeiliol i ddysgwyr sy'n agored i niwed, ac yn sicrhau y gall pob plentyn yn ardal Rhydaman elwa ar addysg blynyddoedd cynnar gyson a chynaliadwy o fewn strwythur ysgol 3–11. |
| |

## 7. Crynodeb o'r Sylwadau Cefnogol a Ddaeth i Law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol

Mae'r tabl isod yn nodi themâu'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r themâu hynny. Mae cyfanswm pob thema yn adlewyrchu faint o ymatebwyr gwahanol a gododd y mater hwnnw.

| Rhif y Pwynt | Y Pwynt a Godwyd | Ymateb yr Awdurdod Lleol | Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn | % yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn |
|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau Cefnogol** | | | | |
| 1 | **Angen Cysondeb a Thegwch** | | 1 | 3% |
| **Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law**<br>Nododd sylwadau cefnogol a ddaeth i law faterion pwysig ynghylch cysondeb a thegwch yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar, gan nodi y dylai pob plentyn gael cyfleoedd cyson waeth pa leoliad y mae'n ei fynychu. Cyfeiriodd sylwadau at well cysondeb o ran ansawdd yr addysgu, safonau a phrofiadau cwricwlwm ar draws y sir pan fydd y ddarpariaeth yn gyson ag ysgolion eraill. | | | | |

<table>
<tr><td colspan="4">Ymateb yr Awdurdod Lleol<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi'r sylwadau cefnogol ac yn cytuno bod sicrhau tegwch i bob plentyn yn ystyriaeth allweddol wrth gyflwyno'r cynigion hyn.<br><br>Mae'r penderfyniad i gau Ysgol Feithrin Rhydaman yn adlewyrchu'r angen i sicrhau trefniadau cyson ar draws y sir ar gyfer addysg feithrin yn dilyn gwaredu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed. Roedd y sefyllfa flaenorol, lle mai Ysgol Feithrin Rhydaman oedd yr unig ysgol feithrin a gynhelir a oedd yn cynnig darpariaeth amser llawn i blant 3 oed, wedi creu system annheg a oedd yn wahanol i bob ysgol gynradd 3–11 arall yn Sir Gaerfyrddin, sy'n darparu addysg feithrin ran-amser yn unig. Gall yr anghysondeb hwn roi plant a theuluoedd mewn ardaloedd eraill dan anfantais ac effeithio ar gynaliadwyedd darparwyr nas cynhelir sy'n gweithredu model rhan-amser.<br><br>Mae'r cynnig hwn yn sicrhau bod Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn cyd-fynd â strwythur ehangach y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ar draws y sir, gan hyrwyddo tegwch, cysondeb o ran mynediad, a system fwy cydlynol i deuluoedd. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai hefyd yn darparu parhad i blant, yn lleihau dyblygu darpariaeth, ac yn cefnogi model mwy cynaliadwy a theg ar gyfer y dyfodol.</td></tr>
<tr><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td>2</td><td>Cynaliadwyedd y Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar</td><td>1</td><td>3%</td></tr>
<tr><td colspan="4">Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law<br>Mynegwyd barn mewn perthynas â phwysigrwydd creu darpariaeth Blynyddoedd Cynnar gynaliadwy yn ardal Rhydaman, gan sicrhau opsiwn cynaliadwy tymor hir.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Ymateb yr Awdurdod Lleol<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y sylwadau cefnogol ynglŷn â phwysigrwydd creu darpariaeth Blynyddoedd Cynnar gynaliadwy yn ardal Rhydaman.<br><br>Bydd trosglwyddo i fodel meithrin rhan-amser cyson a ddarperir drwy Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn cefnogi system fwy cynaliadwy a chytbwys, gan sicrhau bod darpariaeth blynyddoedd cynnar yn cael ei chynnig yn unol ag arferion ledled y</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| sir. Mae'r dull hwn hefyd yn cryfhau hyfywedd tymor hir darparwyr lleol nas cynhelir, sydd ar hyn o bryd yn wynebu heriau wrth ddarparu gofal cofleidiol lle cynigir addysg amser llawn. | | | |
| | | | |
| 3 | **Cymorth i Ddarparwyr Blynyddoedd Cynnar** | 1 | 3% |
| **Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law**<br>Pwysleisiodd sylwadau cefnogol y byddai cysoni darpariaeth feithrin Rhydaman â strwythur ehangach y sir yn creu tirwedd decach a mwy cyson o ran y blynyddoedd cynnar, gan helpu i gryfhau cynaliadwyedd i ddarparwyr blynyddoedd cynnar lleol. | | | |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br>Nodir y sylwadau cefnogol ar gyfer darparwyr blynyddoedd cynnar. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod model economi gymysg gynaliadwy o ddarpariaeth lle mae lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd yn hanfodol er mwyn sicrhau addysg gynnar a gofal plant hyblyg o ansawdd uchel i deuluoedd.<br><br>Bydd y cynnig i safoni'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ran-amser ar draws Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn helpu i greu amgylchedd gweithredu tecach a mwy cynaliadwy i ddarparwyr lleol, gan eu galluogi i dyfu a pharhau i ateb y galw am ofal plant. | | | |
| | | | |
| 4 | **Cryfhau datblygu sgiliau Cymraeg** | 1 | 3% |
| **Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law**<br>Pwysleisiodd sylwadau cefnogol y byddai ad-drefnu'r ddarpariaeth yn Rhydaman yn cryfhau datblygu sgiliau Cymraeg plant drwy gynnig addysg ddwyieithog y blynyddoedd cynnar sy'n fwy cyson a pharhaus ac o ansawdd uchel. Nodwyd y byddai sicrhau bod y | | | |

| |
|---|
| ddarpariaeth feithrin yn cyd-fynd ag ysgolion cynradd yn creu dilyniant mwy hwylus i ddisgyblion, gan alluogi plant i feithrin sgiliau Cymraeg yn fwy naturiol o'r cyfnodau cynharaf. |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y sylwadau cefnogol ynglŷn â chryfhau'r Gymraeg. Mae'r Awdurdod Lleol o'r un farn ac yn cydnabod pwysigrwydd darparu addysg cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn unol ag uchelgeisiau lleol a chenedlaethol.<br><br>Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw i gynnwys darpariaeth ran-amser 3 oed yn cynnig mynediad cynharach i blant at gyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn helpu i ddatblygu sylfeini ieithyddol cynnar cryf ac yn sicrhau proses bontio fwy di-dor o'r cyfnod meithrin i addysg gynradd.<br><br>Mae'r cynnig hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at nodau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2022–2032, sy'n ceisio cynyddu nifer y plant sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac at gefnogi targedau cenedlaethol tuag at gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |

## 8. Opsiynau Eraill

Mae'r tabl isod yn nodi opsiwn arall a ddaeth i law i'w ystyried yn ystod y cyfnod cyflwyno gwrthwynebiadau, dadansoddiad yr Awdurdod Lleol o'r opsiwn arall hwnnw a'i ymateb iddo.

| **Opsiwn: Cynnig datblygu Ysgol Feithrin Rhydaman drwy gyflwyno gofal cofleidiol i gyd-fynd â chynnig Llywodraeth Cymru o 30 awr o ofal plant** | |
|---|---|
| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
| Mae'n cefnogi teuluoedd sy'n gweithio | Nid yw'n cyd-fynd â nod strategol yr Awdurdod Lleol ar gyfer darpariaeth 3-11 gyson ar draws ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin |
| Mae'n adeiladu ar ddarpariaeth bresennol yr ysgol feithrin sydd o ansawdd uchel | Costau uchel sy'n gysylltiedig â chynnal ysgol feithrin ar wahân |
| Mae'n darparu sefydlogrwydd i deuluoedd dan anfantais ac agored i niwed | Cynaliadwyedd arweinyddiaeth barhaol |
| Mae'n diogelu adnodd cymunedol unigryw a ddefnyddir yn aml | Cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cydweithio proffesiynol a pharhad o ran y cwricwlwm |
| | Rhwystrau posibl i ehangu darparwyr gofal plant lleol nas cynhelir |
| | Nid yw'n mynd i'r afael â bylchau a nodwyd o ran parhad addysgol |
| | Gallai oedi neu danseilio gweithrediad y polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed ledled y sir |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Cyfle i gryfhau gofal plant lleol | Anghynaladwyedd ariannol cynnal ysgol feithrin annibynnol |
| Y gallu i gynnig canolfan blynyddoedd cynnar gynhwysfawr ac integredig | Risg barhaus yn gysylltiedig â diffyg arweinyddiaeth barhaol |
| | Gallai danseilio tegwch a chysondeb ar draws y sir |
| | Gallai gyfyngu ar dwf darparwyr gofal plant lleol nas cynhelir |
| | Mwy o bwysau ar recriwtio a chadw staff arbenigol |

**Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg**
Gallai gwella Ysgol Feithrin Rhydaman yn hytrach na'i chau gael effaith gymysg ar ansawdd a safonau mewn addysg. Ar y naill law, byddai'n adeiladu ar yr arolygiad cryf gan Estyn ar gyfer yr ysgol feithrin sy'n dangos safonau da ac arferion diogel. Byddai hefyd yn osgoi'r tarfu ar y plant a achosir gan y broses drosglwyddo, gan gefnogi parhad o ran eu llesiant a'u profiadau dysgu cynnar. Fodd bynnag, mae'r opsiwn hwn hefyd yn peri risgiau; nid oes gan yr ysgol feithrin arweinyddiaeth barhaol ar hyn o bryd, sy'n gwanhau cyfeiriad strategol a chynaliadwyedd yn y tymor hir; a byddai aros fel lleoliad annibynnol yn cyfyngu ar fynediad i'r system staffio ehangach, arbenigedd o ran y cwricwlwm, ac amgylchedd proffesiynol cydweithredol sydd ar gael mewn ysgolion 3–11, y mae'r Cyngor yn nodi eu bod yn cynnig profiadau dysgu ehangach ac arbenigedd a rennir. Yn gyffredinol, gellid cynnal neu wella ansawdd drwy fuddsoddiad sylweddol, ond mae'r risgiau'n parhau os nad yw cyfyngiadau o ran arweinyddiaeth ac adnoddau yn cael sylw.

**Yr effaith debygol ar y gymuned**
Gallai gwella Ysgol Feithrin Rhydaman yn hytrach na'i chau helpu i gynnal canolfan gymunedol werthfawr a chyfarwydd, gan gadw'r ddarpariaeth brecwast ac ar ôl ysgol y mae llawer o deuluoedd yn dibynnu arni a mynd i'r afael â phryderon cymunedol am effaith gymdeithasol ac economaidd cau'r ysgol feithrin, gan gynnwys pryderon am amddifadedd, tegwch, a cholli adnodd lleol dibynadwy. Fodd bynnag, er y byddai'r opsiwn hwn yn cefnogi parhad a chydlyniant yn y tymor byr, efallai na fydd yn datrys yn llawn y materion strwythurol a chynaliadwyedd tymor hwy a nodwyd yn yr ymgynghoriad, gan greu ansicrwydd i'r gymuned os bydd heriau arweinyddiaeth neu ariannu yn parhau.

**Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio**
Byddai'r effaith ar drefniadau teithio yn fach. Mae pob lleoliad, sef Ysgol Feithrin Rhydaman, Ysgol Bro Banw, ac Ysgol Gymraeg Rhydaman, o fewn hanner milltir i'w gilydd.

**Rheswm dros ddiystyru'r opsiwn**
Cafodd yr opsiwn hwn ei ddiystyru oherwydd nad yw'n cyd-fynd â nod y Cyngor i greu darpariaeth blynyddoedd cynnar 3–11 gyson ar draws Sir Gaerfyrddin, gan olygu mai Ysgol Feithrin Rhydaman yw'r unig ysgol feithrin annibynnol a chadw'r annhegwch presennol. Nid oes gan yr ysgol feithrin bennaeth parhaol hefyd, sy'n codi pryderon am gynaliadwyedd yn y tymor hir hyd yn oed os caiff ei gwella, a byddai cadw'r ysgol yn golygu bod materion fel cydweithio proffesiynol cyfyngedig a pharhad gwannach rhwng y cyfnod meithrin a'r cyfnod cynradd yn parhau.

## 9. Canfyddiadau allweddol

Mae canfyddiadau allweddol y dadansoddiad o'r sylwadau a'r dystiolaeth ategol wedi'u crynhoi isod:

Daeth cyfanswm o 25 o wrthwynebiadau a 4 sylw cefnogol i law yn ystod cyfnod yr Hysbysiad Statudol.

Roedd y gwrthwynebiadau yn canolbwyntio'n bennaf ar werth Ysgol Feithrin Rhydaman fel darpariaeth hirsefydlog o ansawdd uchel, yr effaith bosibl ar drefniadau gofal plant, pryderon am gydlyniant cymunedol, a materion yn ymwneud â llesiant plant, tegwch a mynediad.

Pwysleisiodd sylwadau cefnogol y manteision sy'n gysylltiedig â sicrhau mwy o gysondeb a thegwch yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ledled Sir Gaerfyrddin, yn ogystal â gwella cynaliadwyedd tymor hir yn yr ardal.

Mae tystiolaeth yn dangos bod gan Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman y capasiti, y safonau a'r systemau i gynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar 3–11 o ansawdd uchel, a gefnogir gan eu canlyniadau arolygu cadarnhaol diweddar gan Estyn.

Mae'r cynnig yn seiliedig ar newidiadau strategol ledled y sir sy'n gysylltiedig â dileu'r Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed ac nid yw'n adlewyrchiad o ansawdd addysg yn Ysgol Feithrin Rhydaman.

Ni chanfu asesiadau a gynhaliwyd fel rhan o'r broses statudol unrhyw effaith negyddol sylweddol mewn perthynas â theithio, mynediad, diogelwch cymunedol, neu ddatblygiad a llesiant plant.

## 10. Casgliad

Mae'r adroddiad gwrthwynebu hwn yn darparu crynodeb ffeithiol o'r gwrthwynebiadau a'r sylwadau cefnogol a ddaeth i law, ynghyd ag ymatebion yr Awdurdod Lleol yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r asesiadau a gynhaliwyd. Mae'n cael ei gyflwyno i gefnogi'r Cyngor wrth iddo ystyried y cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn ardal Rhydaman. Diben yr adroddiad hwn yw sicrhau bod gan aelodau drosolwg clir a chytbwys o'r holl sylwadau a fynegwyd cyn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig o 1 Medi 2026.

## 11. Argymhelliad

Yn seiliedig ar y dadansoddiad cynhwysfawr o'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law, y sylwadau cefnogol a gyflwynwyd, a'r dystiolaeth a gyflwynwyd drwy gydol yr adroddiad hwn, argymhellir cymeradwyo gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Feithrin Rhydaman ac ymestyn ystod oedran Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman i 3–11 oed heb ddiwygiad. Nid oes unrhyw gynigion cysylltiedig a fyddai'n atal neu'n tanseilio gweithredu'r cynnig.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y cynnig yn cyd-fynd yn uniongyrchol â newidiadau polisi blynyddoedd cynnar ledled y sir sy'n deillio o ddileu'r polisi Plant

sy'n Codi'n 4 oed ac yn mynd i'r afael â'r anghysondeb parhaus sy'n deillio o'r ffaith mai Ysgol Feithrin Rhydaman yw'r unig ysgol feithrin annibynnol yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn cadarnhau bod gan Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman y capasiti, y safonau, y trefniadau diogelu, a'r systemau bugeiliol sydd eu hangen i gynnig darpariaeth ran-amser y blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel, ac mae arolygiadau diweddar gan Estyn yn cadarnhau arferion cryf ar draws y ddau leoliad.

Nid oedd asesiadau a gynhaliwyd fel rhan o'r broses statudol yn nodi unrhyw effaith negyddol sylweddol ar ddatblygiad a llesiant plant, mynediad, teithio neu ddiogelwch cymunedol, a chadarnhawyd y byddai ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn parhau i gael ei chynnig yn yr un ardal, gan gynnwys y defnydd addysgol parhaus o'r adeilad meithrin presennol.

Er bod y pryderon a fynegwyd gan wrthwynebwyr wedi'u hystyried yn ofalus, mae'r cynnig yn cynnig model cydlynol, teg a chynaliadwy ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar yn ardal Rhydaman.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth ac adborth, mae'r Awdurdod Lleol yn argymell bod y cynnig a nodir yn yr Hysbysiad Statudol yn cael ei weithredu.

## 12. Y Camau Nesaf

Bydd yr adroddiad gwrthwynebu yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac yna, yn y pen draw, i'r Cyngor Sir, a fydd yn penderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig o 1 Medi 2026 i:

1. Cau Ysgol Feithrin Rhydaman

Yn ogystal ag

2. ymestyn ystod oedran Ysgol Bro Banw o 4-11 i 3-11
3. ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4-11 i 3-11

i ddarparu ar gyfer disgyblion o Ysgol Feithrin Rhydaman.

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Bydd yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu am benderfyniad y Cyngor Sir a chyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebu cyn pen 7 diwrnod ar ôl y penderfyniad.